Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru
Agricultural Land Tribunal Wales

# Gwneud cwyn

Os ydych chi am wneud cwyn ffurfiol am y gwasanaeth a ddarparwyd gennym, cysylltwch â ni i roi gwybod pam nad ydych chi'n hapus.

Fodd bynnag, ni allwch ddefnyddio'r weithdrefn gwyno i newid penderfyniad tribiwnlys. Os ydych chi'n anghytuno â phenderfyniad tribiwnlys, gallwch apelio i'r Uwch Dribiwnlys neu ofyn i'r tribiwnlys adolygu ei benderfyniad o dan amgylchiadau penodol. Mae terfynau amser llym o ran pryd y gallwch apelio. Cewch wybod y terfynau amser yn llythyr penderfyniad y tribiwnlys.

Wrth wneud cwyn, byddai'n ddefnyddiol pe baech yn:
- nodi'n glir am beth rydych chi'n cwyno;
- rhoi manylion penodol
- rhoi gwybod i ni pam eich bod yn credu y gallem fod wedi gwneud pethau'n wahanol.

Gallwch gwyno am y ffordd y mae'r tribiwnlys yn ymdrin â'ch cais ar unrhyw adeg yn ystod y broses. Ni fydd gwneud cwyn yn oedi'r cais fel arfer.

Fel arfer, bydd y tribiwnlys yn ymateb yn ysgrifenedig. Rhowch wybod i ni os ydych chi'n anfon e-bost ac am i ni ymateb ar e-bost. Gallwch wneud cwyn yn Gymraeg neu Saesneg a byddwn yn ymateb yn yr iaith i chi ei defnyddio.

### I bwy ddylwn i gwyno?

Os ydych chi'n cwyno am y ffordd y deliodd y tribiwnlys â'ch cais, anfonwch eich cwyn at gadeirydd y tribiwnlys.

Os ydych chi'n cwyno am y ffordd yr aeth y tribiwnlys ati i drefnu gwrandawiad eich cais, anfonwch eich cwyn at ysgrifennydd y tribiwnlys.

**Beth fydd yn digwydd ar ôl i mi wneud cwyn?**

Bydd y tribiwnlys yn delio â'ch cais yn brydlon ac yn deg. Ar ôl i ni dderbyn eich cwyn, byddwn yn ei chydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith.

Fel arfer, byddwn yn anfon ymateb llawn i chi o fewn 15 diwrnod gwaith o'i derbyn. Os oes angen ymchwiliad hirach, byddwn yn egluro pa gamau sy'n cael eu cymryd i ddelio â'ch cwyn a phryd y gallwch ddisgwyl ymateb llawn.

Byddwn yn ymddiheuro os ydym wedi gwneud camgymeriad. Byddwn yn dweud wrthych chi beth aeth o'i le a sut rydym yn bwriadu unioni'r sefyllfa.

**Derbyn cwyn**

Pan fydd y tribiwnlys yn derbyn cwyn byddwn yn:

- ei thrin o ddifrif;
- delio â'r gŵyn yn brydlon ac yn gwrtais;
- ymateb drwy egluro'n llawn ac ymddiheuro os ydym wedi gwneud pethau o le a rhoi manylion y camau a gymerwyd i osgoi gwneud pethau o le yn y dyfodol;
- ceisio dysgu o gwynion a'u defnyddio i wella sut rydym ni'n gweithio;
- cadw cofnod o gwynion a chyhoeddi gwybodaeth amdanynt yn ein Hadroddiad Blynyddol.